FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

# Trosolwg a blaenoriaethu prif themâu o arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio, 2017


Cate L. Williams

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth, IBERS, Prifysgol Aberystwyth.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyflwyniad

Mae arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio wedi cael ei gynnal yn 2016 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chanlyniadau'r holiadur yn 2017, a fu'n holi 1085 o ffermwyr a'u busnesau o bob cwr o Gymru.

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn nodi bod ffermwyr yn ymgysylltu gyda gweithgareddau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio ac yn gallu dehongli'r wybodaeth a gyhoeddir a'i gweithredu ar eu busnesau fferm. Mae adborth yn awgrymu y byddai aelodau'n awyddus i weld cyfathrebu/hyrwyddo yn fwy aml ynglŷn â digwyddiadau, cyrsiau a chyfleoedd gan Cyswllt Ffermio. Mae canlyniadau hefyd yn dangos prinder posibl mewn busnesau fferm sydd â chynllun busnes ysgrifenedig, gyda nifer yn nodi bod ganddynt uchelgais glir ar gyfer eu busnesau, ond nifer fach yn meddu ar gynllun ysgrifenedig. Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi trosolwg o ymddygiad ffermwyr a gweithgareddau ar fferm, yn gyffredinol ac o ganlyniad i raglen Cyswllt Ffermio. Mae'n bosibl y bydd modd dod i gasgliadau pellach drwy ddadansoddi pellach a chymharu gyda data arolwg 2016 a 2018.


Noder:  Mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na 1085 ar gyfer rhai cwestiynau. Mae hyn o ganlyniad i ymatebwyr yn cynnig mwy nag un ateb i gwestiwn penodol (a allai gynnwys hyd at bedwar dewis gwahanol, gan ddibynnu ar y cwestiwn).

## Canlyniadau'r Arolwg

### 1 (a). A ydych chi'n meincnodi (cymharu) perfformiad eich busnes gydag unrhyw un o'r canlynol?

| **Math o feincnodi** | **Nifer** |
|---|---|
| Ffisegol yn unig | 78 |
| Ariannol yn unig | 99 |
| Ffisegol ac ariannol | 247 |
| Cyfanswm yr ymatebion | 424 |
| Cyfanswm heb ymateb | 661 |

Ar y cyfan, ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr (61%) ymateb i'r cwestiwn hwn, gan awgrymu o bosibl nad ydynt yn gwneud unrhyw weithgareddau meincnodi o gwbl. O'r ymatebion sy'n weddill, atebodd 23% i nodi eu bod yn meincnodi'n ffisegol ac ariannol gyda dim ond 7 a 9% yn gwneud un math o feincnodi ar ei ben ei hun. Gan fod y canlyniadau'n dangos nad yw mwyafrif y cyfranogwyr yn meincnodi, byddai cynyddu nifer ac argaeledd grwpiau trafod penodol yn gallu bod yn ddefnyddiol. Mae rhannu gwybodaeth ariannol ac am y busnes yn gofyn am elfen o ymddiriedaeth, rhywbeth a fyddai'n gallu cael ei adeiladu mewn sefyllfa fwy cymdeithasol megis grŵp trafod lleol (Jack, 2009).




## 1 (b) A ydych chi wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol dros y flwyddyn ddiwethaf? (Gellir rhoi mwy nag un ateb)

| Gweithgaredd CFf | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Grwpiau trafod | 183 |
| Prifysgol Aberystwyth/Arolwg Busnes Fferm | 29 |
| Agrisgôp | 14 |
| Academi Amaeth | 8 |
| ADHB | 2 |
| Waitrose | 2 |
| Arall | 35 |
| Cyfanswm yr ymatebion | 254 |
| Cyfanswm heb ymateb neu Amherthnasol | 831 |

Ni chafwyd ymateb gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd (76.5%) ar gyfer y cwestiwn yma, gan gynrychioli'r rhai nad ydynt yn cynnal unrhyw weithgareddau meincnodi fel y nodwyd yn y cwestiwn blaenorol yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn meincnodi o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio yn benodol. O'r rhai sy'n meincnodi eu busnes o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio, roedd 72% ohonynt wedi gwneud hynny ar ôl cymryd rhan mewn grwpiau trafod Cyswllt Ffermio. Mae gweithgareddau dylanwadol eraill yn cynnwys ymgysylltiad gyda'r Arolwg Busnes Fferm a'r rhaglen Agrisgôp.

Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr yn ystyried grwpiau trafod yn fuddiol a'u bod yn mabwysiadu arferion newydd o'u herwydd. Mae dysgu gan gyfoedion yn ddull effeithiol iawn o ddysgu/hyfforddi gan fod cyfranogwyr yn aml yn fwy ymatebol i ddysgu gan eraill sydd wedi cael profiad personol o syniad newydd, gan roi ymdeimlad o hygrededd y mae modd uniaethu ag ef. Ym

myd amaeth, mae'r cysyniad yma'n hanfodol, lle mae gwybodaeth yn aml yn cael ei drosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall neu mewn cymunedau agos (Foster a Rosenzweig, 1995; Franz *et al.*, 2010).


## 1 (c) A ydych chi wedi defnyddio eich ffigyrau meincnodi er mwyn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y flwyddyn ddiwethaf?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Do | 252 |
| Naddo | 186 |
| Cyfanswm ymatebion | 440 |
| Cyfanswm heb ymateb | 645 |

Fel y gwelwyd eisoes, ni wnaeth y mwyafrif ateb y cwestiwn. Wrth ychwanegu'r rhai nad oedd wedi cyflwyno ateb at y rhai a oedd wedi ateb "Na", roedd hyn yn gyfanswm o 76% sy'n cyfateb â'r gyfran flaenorol o ffermwyr nad oedd wedi ateb y cwestiwn ac felly'n annhebygol o feincnodi. Gyda'i gilydd, roedd y rhai a holwyd yn cytuno eu bod wedi defnyddio eu ffigyrau meincnodi i wneud newidiadu i'w dulliau rheoli dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 2. A oes gan eich busnes gynllun olyniaeth (rhywun i gymryd yr awenau pan fyddwch chi'n ymddeol)?


| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Oes | 579 |
| Nac oes | 353 |
| Amherthnasol | 147 |
| Cyfanswm ymatebion | 1,079 |
| Cyfanswm heb ymateb | 6 |




Roedd dros hanner (53%) yr ymatebion i'r cwestiwn yma yn gadarnhaol - gan awgrymu bod gan mwyafrif y rhai a holwyd gynllun olyniaeth mewn lle, lle bo'n berthnasol. Cafwyd ymgysylltiad da gyda'r cwestiwn hwn, gyda dim ond 6 yn dewis peidio ag ateb (cyfradd ymateb o 99%).

## 3 (a) A ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r rhain ar eich fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (nodwch bob un sy'n berthnasol)?

| Gweithgaredd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Monitro iechyd anifeiliaid | 548 |
| Mesur glaswellt | 147 |
| Profi Silwair | 532 |
| Profi pridd neu gynllunio rheolaeth pridd a maetholion | 683 |
| Wedi nodi un gweithgaredd | 236 |
| Wedi nodi dau weithgaredd | 326 |
| Wedi nodi tri gweithgaredd | 238 |
| Wedi nodi pedwar gweithgaredd | 74 |
| Cyfanswm ymatebion | 881 |
| Cyfanswm heb ymateb | 204 |




Y gweithgaredd Cyswllt Ffermio fwyaf poblogaidd yma oedd samplu'r pridd neu gynllunio rheoli maetholion, gyda 683 yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Roedd mwyafrif y rhai a holwyd hefyd wedi cymryd rhan mewn un gweithgaredd Cyswllt Ffermio neu fwy (dau neu fwy: 72%; tri neu fwy: 35% a phedwar: 8%). Cyflawnwyd ymgysylltiad da gyda'r gweithgareddau hyn, er bod lle i wella, gan nad oedd 23% o'r garfan a holwyd wedi cymryd rhan mewn unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.

### 3. (b) Os mai "ydw" yw'r ateb ar gyfer unrhyw un o'r uchod, a ydych wedi defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwneud newidiadau i'r modd yr ydych yn rheoli eich fferm dros y flwyddyn ddiwethaf?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Do | 770 |
| Naddo | 86 |
| Cyfanswm heb ymateb | 227 |
| Cyfanswm ymatebion | 856 |

Gwelwyd nifer tebyg o bobl yn peidio ag ateb y cwestiwn hwn fel yng nghwestiwn 3(a) (gwahaniaeth o 23 ymateb, a allai fod o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltiad). Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (90%) wedi nodi eu bod wedi defnyddio gwybodaeth o weithgareddau Cyswllt Ffermio i newid eu harferion rheoli. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cyswllt Ffermio ac yn dehongli ac yn defnyddio'r data a dderbynnir ganddynt o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn.

### 4. A oes gennych chi uchelgais glir ar gyfer eich busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Oes | 832 |
| Nac oes | 247 |
| Cyfanswm heb ymateb | 6 |
| Cyfanswm ymatebion | 1078 |

Cafwyd ymgysylltiad da gyda'r cwestiwn hwn, gyda dim ond 6 yn dewis peidio ag ateb (cyfradd ymateb o 99%). Roedd mwyafrif yr ymatebion (77%) yn nodi bod gan y rhai a holwyd uchelgais neu nod clir mewn golwg ar gyfer eu busnes dros y 3-5 mlynedd nesaf.


### 5. A oes gennych gynllun busnes ysgrifenedig sy'n amlinellu sut y byddwch yn gweithredu eich uchelgais?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Oes | 328 |
| Nac oes | 751 |
| Cyfanswm heb ymateb | 5 |
| Cyfanswm ymatebion | 1079 |

Unwaith eto, cafwyd cyfradd ymateb uchel (99%); fodd bynnag, roedd y mwyafrif (70%) yn nodi nad oedd ganddynt gynllun ysgrifenedig. Mae hyn yn awgrymu o'r rhai a nododd bod ganddynt nod clir yn flaenorol, dim ond 40% sydd hefyd â chynllun busnes ysgrifenedig yn amlinellu sut y byddant yn cyflawni hyn. Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig mynediad at gynllunwyr busnes ar hyn o bryd, yn ogystal â chyllid. Efallai bod angen hyrwyddo ymhellach i sicrhau bod pobl yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ac i helpu aelodau i gyflawni eu huchelgais.

### 6. (a) A ydych chi'n defnyddio meddalwedd recordio electronig ar hyn o bryd i reoli perfformiad eich diadell/buches?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Do | 358 |
| Naddo | 713 |
| Cyfanswm heb ymateb | 14 |
| Cyfanswm ymatebion | 1071 |




Cafwyd nifer o atebion i gwestiwn 6(a) gyda chyfradd ymateb o 98% a dim ond 14 yn dewis peidio ag ateb. Mae'r canlyniadau'n dangos nad yw'r rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn defnyddio EID (66%). Mae EID yn dechnoleg gymharol newydd ac mae astudiaethau'n dangos er y gallai EID helpu i gynyddu proffidioldeb a defnydd o adnoddau, nid yw'r dechnoleg yn cael ei defnyddio'n eang (Lima et al., 2018). Daeth astudiaeth Lima et al., (2018) a fu'n holi ffermwyr y DU ynglŷn â'u defnydd o EID i'r casgliad nad oedd dros hanner y rhai a holwyd yn defnyddio EID, nac yn bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r nifer yma'n cyfateb yn fras â'r canlyniadau a welwyd yma; gan ddangos o bosibl y byddai rhannu tystiolaeth o effeithiau posibl EID (e.e. lefelau cloffni is yn y ddiadell) neu arddangosiadau ymarferol ar y fferm yn ddefnyddiol.

### 6. (b) os felly, rhowch ddisgrifiad o'r math o system yr ydych yn ei defnyddio.

| Meddalwedd EID | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Agri data | 16 |
| Agri-net | 4 |
| Allflex | 10 |
| Alta | 3 |
| BCMS | 7 |
| CIS/CIF recording | 7 |
| Farm Plan | 6 |
| Farm Wizard | 6 |

| | |
|---|---|
| FarmIT | 12 |
| FarmWorks | 4 |
| i-Livestock | 4 |
| Inter-herd | 10 |
| Cofnodion Llaeth/NMR | 17 |
| Psion | 3 |
| Cloriannau/Pwyso | 4 |
| Shearwell EID | 56 |
| Summit | 4 |
| TrueTest | 3 |
| Uniform Agri | 3 |
| Coleri dienw | 7 |
| Tagiau clust/darllenwyr amhenodol | 54 |
| Darllenydd EID amhenodol | 78 |
| Darllenydd ffon EID amhenodol | 30 |
| Arall | 41 |
| Cyfanswm yr ymatebion | 335 |
| Cyfanswm heb ymateb | 750 |

Yn nghwestiwn 6(b) mae nifer y rhai nad ydynt wedi cynnig ateb (750) yn cyfateb yn fras gyda nifer y rhai nad ydynt wedi cynnig ateb a'r rhai nad ydynt yn defnyddio EID yng nghwestiwn 6(a) (727). Mae'r cynnydd o 25 heb ymateb o bosibl yn dangos bwlch mewn gwybodaeth lle nad yw ffermwyr yn poeni pa fath na pha frand o dechnoleg EID maen nhw'n eu defnyddio. Ar y cyfan, y brand mwyaf poblogaidd o dechnoleg EID a ddefnyddir gan y ffermwyr a holwyd oedd Shearwell (17%). Nid oedd y mwyafrif a atebodd yn manylu ynglŷn â brand EID, ond yn nodi'r math o EID (coler: 2%; ffon: 9%; darllennydd EID: 23% a thag clust + darllennydd: 16%).

## 6. A fyddech chi'n ystyried cwblhau hyfforddiant drwy gyrsiau e-ddysgu ar-lein?

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Byddem | 730 |
| Na fyddem | 348 |
| Cyfanswm heb ymateb | 7 |
| Cyfanswm ymatebion | 1078 |

Cafwyd nifer dda o atebion i gwestiwn 7, gyda chyfradd ymateb o 99%, lle'r oedd mwyafrif yr ymatebwyr (68%) yn nodi y byddent yn ystyried cwblhau cwrs E-ddysgu.

## 7. (a) A oes gennych chi goetir ar eich fferm?


| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Oes | 695 |
| Nac oes | 371 |
| Cyfanswm heb ymateb | 19 |
| Cyfanswm ymatebion | 1066 |

## 8. (b) Os felly, a ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?

Roedd 65% o'r cyfranogwyr yn nodi bod ganddynt goetir ar eu ffermydd, sef dros hanner cyfanswm yr ymatebion.

| Ymateb | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Rheoli eich coetir fferm | 232 |
| Defnyddio adnoddau coed o'ch coetir fferm at ddibenion busnes | 44 |
| Y ddau o'r uchod | 89 |
| Cyfanswm heb ymateb | 718 |
| Cyfanswm ymatebion | 365 |


Fodd bynnag, 34% o gyfranogwyr yn unig a nododd eu bod yn defnyddio neu'n rheoli coetir ar eu fferm. O'r rhai a nododd bod ganddynt goetir ar eu fferm yng nghwestiwn 8(a), yng nghwestiwn 8(b) mae tua 53% ohonynt yn defnyddio'r coed neu'n rheoli eu coetiroedd. Efallai bod hyn yn dangos bod cyfranogwyr angen gwybodaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio eu hadnoddau coed neu hyfforddiant yn ymwneud â thechnegau rheoli.




## 9. Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem iechyd fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad?

| Problem iechyd | | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| Cloffni | | 161 |
| | Defaid | 58 |
| | Gwartheg | 11 |
| Clwy'r traed | | 117 |
| Llyngyr yr iau | | 112 |
| | Defaid | 16 |
| | Gwartheg | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) | | 79 |
| Clefyd Johne (enteritis cronig) | | 68 |
| Niwmonia | | 62 |
| Parasitiaid | | 56 |
| | Defaid | 15 |
| Clafr | | 44 |
| Mastitis | | 36 |
| Erthylu | | 28 |
| | Defaid | 10 |
| | Moch | 1 |
| | Ensootig | 10 |
| Ffrwythlondeb | | 23 |
| Leptosbirosis | | 18 |
| Diffygion elfennau hybrin/mwynau | | 15 |
| Rhinotracheitis Heintus mewn gwartheg (IBR) | | 14 |
| Ymwrthedd parasitiaid | | 14 |
| Trogod | | 14 |
| CODD (Dermatitis Digidol Deifeidiol Heintus) | | 13 |
| Ffliw adar | | 11 |
| Ysgôth | | 11 |
| Firws Schmallenberg (SBV) | | 11 |
| Cocsidiosis | | 10 |
| Cynrhon | | 10 |
| Tocsoplasmosis | | 9 |
| Dermatitis digidol mewn gwartheg | | 8 |
| Llau | | 7 |
| Neospora | | 7 |
| Llyngyr | | 7 |
| Colledion/marwolaethau ŵyn | | 5 |
| Salmonela | | 4 |
| Arall | | 36 |
| **Cyfanswm ymatebion** | | **813** |
| **Cyfanswm heb ymateb** | | **271** |



Top 15 health issues for participating farms (excl. TB)
Parasite resistance
Infectious Bovine Rhinotrachetis (IBR)
Mineral/trace element deficiencies
Leptospirosis
Fertility
Abortion
Mastitis
Scab
Parasites
Pneumonia
Johne's disease
Bovine Viral Diarrhoea (BVD)
Fluke (Cattle)
Fluke (Sheep)
Fluke (general)
Foot rot
Lameness (Cattle)
Lameness (Sheep)
Lameness (general)
Health issue
0
20
40
60
80
100
120
140
160
180
Number of responses

Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y cwestiwn hwn yn 75%; gyda'r 25% sy'n weddill yn nodi naill ai mai TB Buchol yw eu hunig bryder neu bod diffyg ymgysylltiad gyda'r cwestiwn. Y pryder iechyd mwyaf cyffredin oedd cloffni (20%; heb nodi a yw'n effeithio ar ddefaid neu wartheg) er bod mwy yn nodi eu bod yn pryderu am gloffni mewn defaid (7%). Roedd ymatebion hefyd yn nodi bod clwy'r traed mewn defaid yn bryder i 14% o'r ymatebwyr a bod llyngyr yn gyffredinol (heb nodi a yw'n effeithio ar ddefaid neu wartheg) yn broblem i 13.5% o'r ymatebwyr. Roedd BVD yn bryder canolig (BVD; 10%), yn ogystal â chlefyd Johne's (enteritis cronig mewn defaid a achosir gan *Mycobacterium avium* subsp. *paratuberculosis;* 8%) a niwmonia (7%) (Whittington *et al.*, 2017)

## 10. Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 yn golygu nad yw'n bwysig o gwbl a 6 yn golygu pwysig iawn)

### (a) Bioamrywiaeth a chynefinoedd

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 53 |
| 2 | 84 |
| 3 | 257 |
| 4 | 289 |
| 5 | 234 |
| 6 | 167 |
| Cyfanswm ymatebion | 1084 |
| Cyfanswm heb ymateb | 1 |





Roedd ymgysylltiad â'r cwestiwn hwn yn uchel, gyda dim ond un heb ymateb (cyfradd ymateb o 99.9%). Roedd gwasgariad yr ymatebion yn cydfynd â dosbarthiad cromlin cloch neu safonol gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'w gweld yn y canol (sgôr 3-5) ac yn lleihau bob ochr i hynny (1, 2 a 6) gydag ychydig o dueddiad tuag at yr ochr uwch (gweler y graff). O'r cyfanswm ymatebion, roedd 72% yn

eistedd o fewn tri dewis canolog (3, 4 a 5). Roedd y tueddiad tuag at yr ochr uchaf (15%) yn dewis 6) yn awgrymu bod cyfranogwyr yn ymwybodol ac yn bryderus ynglŷn â bioddiogelwch a bywyd gwyllt ar eu ffermydd.

## (b) Pridd

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 4 |
| 2 | 5 |
| 3 | 47 |
| 4 | 116 |
| 5 | 349 |
| 6 | 553 |
| Cyfanswm ymatebion | 1074 |
| Cyfanswm heb ymateb | 11 |




Pa ofynnwyd iddynt pa mor bwysig yw rheoli'r pridd ar gyfer eu busnes fferm, ymatebodd y cyfranogwyr yn gryf, gydag ychydig dros hanner (51%) yn dewis y rhif uchaf ar y raddfa. Gellir gweld perthynas wahanol, mwy llinellol yma, sy'n awgrymu'n gryf mai rheoli'r pridd yw'r peth pwysicaf ar gyfer cyfranogwyr (roedd 84% o'r rhai a holwyd yn nodi bod ansawdd y pridd yn 5 neu 6 o ran pwysigrwydd). Mae'r canlyniad yma'n galonogol gan ei fod yn awgrymu dealltwriaeth dda o'r angen i fonitro a chynnal y pridd er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant a'r elw gorau posibl.

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|

### (c) Ansawdd dŵr

| | |
|---|---|
| 1 | 10 |
| 2 | 22 |
| 3 | 83 |
| 4 | 153 |
| 5 | 395 |
| 6 | 421 |
| Cyfanswm ymatebion | 1084 |
| Cyfanswm heb ymateb | 1 |

Roedd yr ymateb i ansawdd dŵr yn debyg i'r pridd, er ychydig yn llai amlwg, gydag 89% o'r ymatebwyr yn nodi bod ansawdd dŵr yn bedwar neu uwch ar y raddfa bwysigrwydd. Derbyniwyd cyfradd ymateb uchel (99.9%) ar gyfer y cwestiwn hwn, gyda dim ond un heb ymateb.


### (d) Tirwedd

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 16 |
| 2 | 26 |
| 3 | 107 |
| 4 | 248 |
| 5 | 398 |
| 6 | 286 |
| Cyfanswm ymatebion | 1081 |
| Cyfanswm heb ymateb | 4 |

Mae pwysigrwydd rheoli tirwedd i'r cyfranogwyr yn yr arolwg hon yn debyg i'r canlyniadau ar gyfer bioddiogelwch a chynefinoedd, gan ddangos dosbarthiad normal gyda thueddiad tuag at yr ochr uchaf. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn pryderu i raddau am gynnal eu tirwedd, ond nad yw mor bwysig â phridd neu ansawdd dŵr. Mae ymateb o'r fath yn galonogol gan fod tirwedd Cymru'n cael ei gydnabod yn adnodd cyhoeddus, gyda'r rhan helaeth ohono'n cael ei reoli a'i drin gan ffermwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei gydnabod drwy'r rhaglen Glastir, sy'n gweithio fel cymhelliant i gynnwys ffermwyr yn y broses o ddiogelu'r amgylchedd naturiol. Gyda dyfodiad BREXIT, mae'n bwysig i lywodraeth y DU barhau i gynnig cymhelliant a diogelu cefn gwlad Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018).

### (e) Dŵr

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 49 |
| 2 | 35 |
| 3 | 75 |
| 4 | 265 |
| 5 | 390 |
| 6 | 264 |
| Cyfanswm ymatebion | 1078 |
| Cyfanswm heb ymateb | 7 |




Pan ofynnwyd am bwysigrwydd rheoli dŵr yn gyffredinol, ymatebodd cyfranogwyr mewn ffordd debyg i gwestiwn (d) ynghylch tirwedd. Dewisodd y mwyafrif (36%) bump ar y raddfa bwysigrwydd ac roedd 85% o'r ymatebion yn eistedd rhwng pedwar a chwech ar y raddfa. Cafwyd ychydig yn llai o bobl yn peidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn, o bosibl o ganlyniad i ddiffyg ymgysylltiad wrth i'r ymatebwyr fynd drwy'r holiadur tuag at y diwed.


## (f) Ansawdd aer

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 45 |
| 2 | 87 |
| 3 | 129 |
| 4 | 218 |
| 5 | 330 |
| 6 | 269 |
| Cyfanswm ymatebion | 1078 |
| Cyfanswm heb ymateb | 7 |

Roedd pwysigrwydd rheoli ansawdd aer unwaith eto'n cymharu'n dda gyda'r ymatebion i gwestiynau (d) ac (e). Roedd mwyafrif yr ymatebion ar ochr uchaf y canol (75% wedi dewis 4, 5 neu 6 ar y raddfa) a'r mwyafrif (30%) wedi dewis lefel 5 o ran pwysigrwydd.

## (g) Gwastraff

| Gwerth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| 1 | 5 |
| 2 | 14 |
| 3 | 67 |
| 4 | 155 |
| 5 | 428 |
| 6 | 413 |
| Cyfanswm ymatebion | 1082 |
| Cyfanswm heb ymateb | 3 |




Pan ofynnwyd am bwysigrwydd rheoli gwastraff, roedd ymatebion yn dangos patrwm fwy llinellol, gyda'r rhan fwyaf (40%) yn dangos pwysigrwydd o 5 ar y raddfa. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebion (78%) ar ochr uchaf y raddfa (5 a 6). Mae rheoli gwastraff yn y diwydiant amaeth yn bwysig iawn, gan fod rheolaeth aneffeithiol yn gallu arwain at drwytholchi i'r amgylchedd gan achosi halogiad ar dir a ffynonellau dŵr. Nid deunydd ysgarthol yn unig sydd mewn gwastraff - mae gwrthfiotigau, cemegau deunydd pecynnu a phlastigau hefyd yn cael eu canfod. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn ymwybodol o reoliadau ar gyfer gwaredu gwastraff amaethyddol yn y ffordd cywir ac yn dilyn y rheoliadau hynny, er mwyn diogelu'r amgylchedd a lleihau halogiad (CIWM, 2006).

## 11. Pa gefnogaeth arall hoffech chi ei dderbyn gan Cyswllt Ffermio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant eich busnes?

| **Adborth** | | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|---|
| Cyngor am BREXIT | | 9 |
| Cyrsiau achrededig | | 5 |
| Cyrsiau mwy amrywiol | | 39 |
| Cyrsiau mwy cyfleus (amseroedd/diwrnod) | | 6 |
| Gallu cofrestru'n haws ar gyfer cyrsiau | | 6 |
| Digwyddiadau mewn mwy o leoliadau | | 13 |
| Arallgyfeirio | | 22 |
| Iechyd anifeiliaid | | 25 |
| Sesiynau un i un | | 8 |
| Cefnogaeth bersonol | | 3 |
| Gwell cyfathrebu a hysbysebu | Cyffredinol | 42 |


| | | |
|---|---|---|
| | Mwy yn y post | 7 |
| | Mwy ar-lein | 5 |
| Cyngor ar dwristiaeth | | 8 |
| Mwy o grantiau | | 50 |
| Hyfforddiant TG a chyfrifiaduron | | 34 |
| Cyngor a chynllunio busnes | | 15 |
| Hyfforddiant  a chyngor ar gyllid | | 13 |
| Marchnata | | 11 |
| Ffynonellau ynni adnewyddadwy ac ailgylchu | | 7 |
| Olyniaeth | | 10 |
| Cymorth/cefnogaeth ar gyfer ffermwyr ifanc | | 35 |
| Cyngor ar gyfreithiau, rheolau a rheoliadau | | 8 |
| Cyngor ar feincnodi | | 9 |
| Mwy o ddigwyddiadau ar fferm/ffermydd arddangos | | 20 |
| Mwy o grwpiau trafod | | 19 |
| Mwy o brofi priddoedd | | 32 |
| Rheoli coetir | | 5 |
| Dim byd/Fel ag y mae | | 105 |
| Cyfanswm ymatebion | | 484 |
| Cyfanswm heb ymateb | | 601 |

Roedd cwestiwn 11 yn gofyn am ymateb ysgrifenedig byr gan ymatebwyr. Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y cwestiwn hwn yn 44% gan awgrymu naill ai nad oedd gan y 56% ymatebwr sy'n weddill unrhyw adborth yr hoffent ei rannu, neu nad oeddent yn hoff o'r math hwn o gwestiwn (atebion ysgrifenedig byr o'i gymharu â chwestiynau amlddewis fel y gwelwyd yn flaenorol). Ar y cyfan, yr ymateb a gofnodwyd fwyaf oedd 'dim byd/fel ag y mae', gan ddangos bod 21% o'r ymatebwyr yn hapus gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan Cyswllt Ffermio. Yn ogystal, cafwyd adborth bositif ochr yn ochr â'r ymateb, e.e: "Rydw i'n hapus gyda'r help a'r mentora a drefnwyd gan CFf ar gyfer fy musnes", "Parhewch gyda'r gwaith da a'r gefnogaeth ddefnyddiol" a "Parhewch gyda'r cyrsiau, maen nhw'n ddefnyddiol iawn". Mae hyn yn dangos bod nifer o'r cyfranogwyr yn ymgysyltu gyda gweithgareddau ac yn elwa ohonynt.  Fodd bynnag, nid oedd y ffordd orau o dderbyn gohebiaeth yn glir, gyda phum person yn gofyn am ragor o ddeunydd drwy'r post, a saith yn gofyn am ragor o ohebiaeth ar lein. Roedd cyfranogwyr (8%) yn gofyn am ystod ehangach o gyrsiau, gan gynnwys pynciau megis cneifio, hyfforddi cŵn defaid a chodi waliau cerrig. O'r holl ymatebion, gofynnodd 7% am ragor o gefnogaeth a chymorth ar gyfer ffermwyr ifanc, o ran yr elfen ariannol a chynghori. Yn ogystal, gofynnodd tua 7% am hyfforddiant TG/cyfrifiaduron i helpu gyda thechnoleg newydd. Mae hyn o bosibl yn dangos bwlch mewn gwybodaeth, a allai fod yn fwy o bryder ar hyn o bryd o ganlyniad i'r newid yn y gyfraith o ran TAW. Bydd angen i fusnesau fferm gadw cofnodion digido a chyflwyno ffurflenni TAW yn uniongyrchol oddi ar eu meddalwedd ariannol, ar-lein o fis Ebrill 2019 ymlaen (CThEM, 2019). Un ffactor sy'n gwneud y mater yn anodd yw bod nifer o ardaloedd gwledig yn cael trafferthion gyda chysylltiadau â'r we, a rhai'n methu â chysylltu o gwbl.

Roedd rhai o'r awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys grŵp prynu a gwerthu cydweithredol, cyfarfod ar gyfer ffermwyr sydd wedi ymddeol, mynediad at gefnogaeth bersonol a fforymau sgwrsio ar-lein.

## 12. Dosbarthiad daearyddol yr ymatebwyr

| Sir | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Pen-y-bont | 12 |
| Caernarfon | 2 |
| Caerffili | 6 |
| Sir Gâr | 130 |
| Caerdydd | 2 |
| Carmarthen | 3 |
| Ceredigion | 121 |
| Conwy | 76 |
| Sir Ddinbych | 43 |
| Sir y Fflint | 33 |
| Morgannwg | 1 |
| Gwent | 1 |
| Gwynedd | 121 |
| Ynys Môn | 41 |
| Sir Fynwy | 41 |
| Sir Drefaldwyn | 3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 |
| Casnewydd | 1 |
| Sir Benfro | 78 |
| Powys | 269 |
| Rhondda Cynon Taf | 9 |
| Abertawe | 13 |
| Bro Morgannwg | 13 |
| Wrecsam | 24 |
| Cyfanswm heb ymateb | 30 |
| Cyfanswm ymatebion | 1055 |




Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn 2017 (25%) yn dod o Bowys. Cafwyd hefyd nifer o ymatebion o Sir Gâr, Ceredigion a Gwynedd, gyda 11-12% o ymatebwyr yr un.

## Sylwadau i gloi

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos lefel dda o ymgysylltiad gyda gweithgareddau Cyswllt Ffermio gan ffermwyr. Roedd dros 80% o ffermwyr a holwyd yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ac yn gwneud newidiadau ymarferol i'w busnesau.

Er bod yr arolwg wedi dangos bod gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr uchelgais glir ar gyfer eu busnes fferm, dangoswyd hefyd mai nifer fechan iawn sydd â chynllun busnes ysgrifenedig mewn lle. Gan fod Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig mynediad at gynllunwyr busnes, gallai fod yn ddefnyddiol hybu'r gwasanaeth hwn ymhellach. Maes arall sydd angen ei ystyried yw cyfathrebu; byddai nifer o'r ymatebwyr yn awyddus i dderbyn negeseuon fwy clir ynglŷn â'r hyn y gallai Cyswllt Ffermio ei gynnig, yn ogystal â thrwy ddulliau gwahanol. Mae nifer o gymunedau gwledig yn dibynnu ar gyfathrebu drwy'r post gan fod cysylltiad â'r we yn gallu achosi problemau, ac mae'r defnydd o gyfrifiaduron yn eithaf isel. O ganlyniad, gallai cyfathrebu drwy'r post gydag opsiwn i fynd ar lein yn strategaeth effeithiol. Gallai cefnogaeth bellach gyda chyfrifiaduron, prosesau ar lein (e.e. TAW) a chronfeydd data fod yn ddefnyddiol.

## Llyfryddiaeth

Chartered Institute of Waste Management (CIWM) (2006), Waste Management (England and Wales) Regulations 2006 (mynediad ar 21/02/19: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/937/pdfs/uksi_20060937_en.pdf).

Foster. A. D a Rosenzweig. M. R (1995), 'Learning by doing and learning from others: Human capital and technical change in agriculture', *Journal of Political Economy*, **103**(6): 1176-1209.

Franz. N, Piercy. F, Donaldson. J, Richard. R a Westbrook. J (2010), 'How farmers learn: Implications for agricultural educators', *Journal of Rural Social Sciences,* **25**(1): 37-59.

Jack. L (2009), 'Benchmarking in food and farming: creating sustainable change', *Gower Publishing, Surrey, UK.*

Lima. E, Hopkins. T, Gurney. E, Shortall. O, Lovatt. F, Davies. P, Williamson. G a Kaler. J (2018), 'Drivers for precision livestock technology adoption: a study of factors associated with the adoption of electronic identification technology by commercial sheep farmers in England and Wales', *PLOS One,* **13**(1).

Whittington. R. J, Begg. D. J, de Silva. K, Purdie. A. C, Dhand. N. K a Plain. K. M (2017), 'Case definition terminology for paratuberculosis (Johne's disease)', *BMC Veterinary Research*, **13**(328).

Llywodraeth Cymru (2017), Tirweddau Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (mynediad ar 22/02/19: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-a-tir-ymgynghoriad-dogfen-ymgynghori.pdf

Llywodraeth Cymru (2018), BREXIT a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru (mynediad ar 22/09/19: https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-and-our-land-consultation-document_0.pdf).